Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Community & Social Development Committee held on 15 November 2023 at 6.30pm via TEAMS

**Councillors Present:** Cllrs Pam Erasmus, Francesca O'Brien, Phil Keeton, Sara Keeton (Acting Chair), Tim Zhou, Ian Scott and Rhian Evans

**Officers Present:** Paul Beynon – The RFO and Ian Hughes Committee Support Officer (CSO)

**CM2311-01** **Apologies:** Cllr Will Thomas

**CM2311-02** **Declarations of Interest**
None.

**CM2311-03** **To approve the minutes of the meeting held on the 18th October 2023 as a true record.**

**RESOLVED** to approve the minutes from the 18th October meeting as a true and accurate record.

**CM2311-04** **Outstanding Actions from September Meeting**
CSO outlined outstanding actions with the exception of those being the subject of agenda items.

**RESOLVED** Outstanding actions updated and completed, details recorded in 'outstanding action' report.

**CM2311-05** **Budget Monitoring Report to 30/09/2023**
The RFO outlined key points from the Budget Monitoring Report and directed the attention of councillors to an overspend of £44,000 in relation to Mumbles Skatepark. The RFO explained that there had been an underspend of £43,000 in the previous financial year which will be carried forward as an earmarked reserve for that specific purpose.

**RESOLVED** the Budget Monitoring Report was accepted.

**RECOMMENDED**: RFO to arrange a survey on the pavilion and other structures contained within the grounds of Mumbles Bowls Club.

Mumbles Community Council

**CM2311-06** **Budget 2024/25 including presentation by RFO, Paul Beynon**

The RFO presented his budget report for the current financial year and issues impacting on the 2024/25 financial year. In particular The RFO stressed the need for any budget proposal forms relating to new expenditure be submitted to him by 1st December 2023. A number of actions for councillors and officers were generated during the discussion which have been set out below.

**AGREED:** the RFO's report and presentation were accepted. It was agreed that a £5,000 grant in relation to Mumbles Bowls Club be carried over to the 2024/25 financial year.

**ACTION**: Cllr. Pam Erasmus to establish identify costs connected to Mumbles Skatepark, in particular the cost of a further Skate Jam in 2024.

**ACTION**: Cllr Sara Keeton to identify traffic calming/road safety options in the vicinity of Whitestone Primary School, through consultations with shop proprietors in the Top Shop Area. Budgeting figures to be obtained.

**ACTION**: RFO to obtain quotes in relation to fencing surrounding Langland Tennis Court.

**ACTION**: Following discussion of Cllr Tim Zhou's free five a side football proposal, Cllr Zhou to establish whether Court 4 of Langland Tennis Courts would be a suitable venue.

**ACTION**: Following the discussion as to whether Court 4 of Langland Tennis Courts would be a suitable venue for five a side football, Cllrs Sara Keeton and Pam Erasmus to provide budgeting costs of carrying out a scoping exercise as to Court 4's suitability.

**ACTION**: Following the proposal by Cllr Pam Erasmus that a beach wheelchair would be beneficial at Langland to assist lifeguards with people injuring themselves on the beach, both Cllr Pam Erasmus and CSO to research the options available. The wheelchair would be available for rescuing injured persons on the beach and not to provide support for disabled persons. Should the purchase of such a wheelchair be approved other considerations including its storage, having suitably qualified persons to use it and the potential for insurance claims are to be considered at that point.

**ACTION**: Following the proposal by Cllr Phil Keeton that to RFO by 1st December. a Lego Build-It Scheme be created within MCC area Cllr Phil Keeton to submit a budget proposal form.

**ACTION**: Following the proposal by Cllr Sara Keeton that a climbing frame be erected in Fairwood Park Cllr Sara Keeton to submit a budget proposal form to RFO by 1st December. The climbing frame would be aimed at older children in the 9 to 12 year age group. In addition Cllr Phil Keeton to explore SCC costings.

**ACTION**: All Councillors to submit budget proposal forms to RFO by 1st December 2023. Draft committee budgets to be approved at the next committee meeting on 6th December 2023.

Cllr Francesca O'Brien left the meeting at 7.43pm

**CM2311-07** **Virement of Budget from Newton Family Fun Day to MCC Christmas Lunch**

This request had been discussed and resolved at The Full Council Meeting on 14th November 2023.

**CM2311-08** **Underhill Park Update**

Underhill Park updates had been provided at The Full Council Meeting on 14th November 2023. This included approval of £14,000 to be spent on improving paths between the New Hub and Underhill Car Park.

**CM2311-09** **Langland Tennis Courts Update**

Langland Tennis Courts discussed, and actions taken in earlier agenda item **CM2311-06**

**CM2311-10** **Mumbles Skate Park Update**

Mumbles Skate Park discussed, and actions taken in earlier agenda item **CM2311-06**

**CM2311-11** **Other Projects**

No other projects discussed.

Meeting finished 7.49pm

Next Meeting 6th December 2023

# Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2023 am 6.30pm trwy Teams

**Y cynghorwyr yn bresennol:** Y Cynghorwyr Pam Erasmus, Francesca O'Brien, Phil Keeton, Sara Keeton (Cadeirydd Dros Dro), Tim Zhou, Ian Scott a Rhian Evans

**Y swyddogion yn bresennol:** Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol, ac Ian Hughes, Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**CM2311-01** **Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Will Thomas

**CM2311-02** **Datganiadau o fuddiant**

Dim

**CM2311-03** **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2023 fel cofnod cywir**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod 18 Hydref fel cofnod gwir a chywir.

**CM2311-04** **Camau gweithredu heb eu cwblhau o gyfarfod mis Medi**

Amlinellodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau'r camau gweithredu oedd heb eu cyflawni ac eithrio'r rhai oedd yn destun eitemau ar yr agenda.

**PENDERFYNWYD** bod y camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau bellach wedi'u diweddaru a'u cwblhau, a bod y manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu heb eu cwblhau'.

**CM2311-05**

**Adroddiad Monitro'r Gyllideb hyd at 30/09/2023**

Amlinellodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bwyntiau allweddol o Adroddiad Monitro'r Gyllideb a chyfeiriodd sylw'r cynghorwyr at orwariant o £44,000 mewn perthynas â Pharc Sglefrio'r Mwmbwls. Eglurodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol y bu tanwariant o £43,000 yn y flwyddyn ariannol flaenorol a fydd yn cael ei gario ymlaen fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi at y diben penodol hwnnw.

**PENDERFYNWYD** derbyn Adroddiad Monitro'r Gyllideb.

Mumbles Community Council

**ARGYMHELLWYD:** Y Swyddog Ariannol Cyfrifol i drefnu arolwg o'r pafiliwn ac adeileddau eraill sydd wedi'u cynnwys ar dir Clwb Bowlio'r Mwmbwls.

**CM2311-06** **Cyllideb 2024/25, gan gynnwys cyflwyniad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon**

Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ei adroddiad cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a materion yn effeithio ar flwyddyn ariannol 2024/25. Yn benodol, pwysleisiodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yr angen i unrhyw ffurflenni cynnig cyllideb sy'n ymwneud â gwariant newydd gael eu cyflwyno iddo erbyn 1 Rhagfyr 2023. Cynhyrchwyd nifer o gamau gweithredu ar gyfer cynghorwyr a swyddogion yn ystod y drafodaeth, sydd wedi'u nodi isod.

**CYTUNWYD:** Derbyniwyd adroddiad a chyflwyniad y Swyddog Ariannol Cyfrifol. Cytunwyd i gario grant o £5,000 mewn perthynas â Chlwb Bowls y Mwmbwls drosodd i flwyddyn ariannol 2024/25.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorydd Pam Erasmus i ganfod costau sy'n gysylltiedig â Pharc Sglefrio'r Mwmbwls, yn enwedig cost 'Skate Jam' arall yn 2024.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorydd Sara Keeton i nodi opsiynau arafu traffig / diogelwch ar y ffyrdd yng nghyffiniau Ysgol Gynradd Whitestone, trwy ymgynghori â pherchnogion siopau yn ardal Top Shop. Ffigurau cyllidebu i'w cael.

**CAM GWEITHREDU**: Y Swyddog Ariannol Cyfrifol i gael dyfynbrisiau mewn perthynas â ffensio o amgylch Cyrtiau Tennis Langland.

**CAM GWEITHREDU**: Yn dilyn trafodaeth ar gynnig pêl-droed pum bob ochr am ddim y Cynghorydd Tim Zhou, y Cynghorydd Zhou i sefydlu a fyddai Cwrt 4 Cyrtiau Tenis Langland yn lleoliad addas.

**CAM GWEITHREDU**: Yn dilyn trafodaeth ynghylch a fyddai Cwrt 4 Cyrtiau Tenis Langland yn lleoliad addas ar gyfer pêl-droed pum bob ochr, y Cynghorwyr Sara Keeton a Pam Erasmus i ddarparu costau cyllidebu ar gyfer cynnal ymarfer cwmpasu ynghylch addasrwydd Cwrt 4.

**CAM GWEITHREDU**: Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Pam Erasmus y byddai cadair olwyn ar y traeth o fudd yn Langland i gynorthwyo achubwyr bywyd gyda phobl yn anafu eu hunain ar y traeth, y Cynghorydd Pam Erasmus a'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau i ymchwilio i'r opsiynau sydd ar gael. Byddai'r gadair olwyn ar gael i achub pobl a anafwyd ar y traeth ac nid i ddarparu cymorth i bobl anabl. Os cymeradwyir prynu cadair olwyn o'r fath, mae ystyriaethau eraill, gan gynnwys ei

storio, bod â phobl â chymwysterau addas i'w defnyddio, a'r potensial ar gyfer hawliadau yswiriant, i'w hystyried bryd hynny.

**CAM GWEITHREDU**: Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Phil Keeton i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol fod Cynllun Lego Build-It yn cael ei greu o fewn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls, y Cynghorydd Phil Keeton i gyflwyno ffurflen cynnig cyllideb.

**CAM GWEITHREDU**: Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Sara Keeton y dylid codi ffrâm ddringo ym Mharc Fairwood, y Cynghorydd Sara Keeton i gyflwyno ffurflen cynnig cyllideb i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol erbyn 1 Rhagfyr. Byddai'r ffrâm ddringo wedi'i hanelu at blant hŷn yn y grŵp oedran 9 i 12 oed. Yn ogystal, y Cynghorydd Phil Keeton i archwilio costau Cyngor Dinas a Sir Abertawe.

**CAM GWEITHREDU**: Pob cynghorydd i gyflwyno ffurflenni cynnig cyllideb i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol erbyn 1 Rhagfyr 2023. Cyllidebau drafft y pwyllgor i'w cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ar 6 Rhagfyr 2023.

Gadawodd y Cynghorydd Francesca O'Brien y cyfarfod am 7.43pm.

**CM2311-07** **Trosglwyddiad Cyllideb o Ddiwrnod Hwyl i'r Teulu Newton i Ginio Nadolig Cyngor Cymuned y Mwmbwls**

Roedd y cais hwn wedi'i drafod a'i gymeradwyo yng nghyfarfod o'r cyngor llawn ar 14 Tachwedd 2023.

**CM2311-08** **Diweddariad ar Barc Underhill**

Roedd diweddariadau Parc Underhill wedi'u darparu mewn cyfarfod o'r cyngor llawn ar 14 Tachwedd 2023. Roedd hyn yn cynnwys cymeradwyo £14,000 i'w wario ar wella llwybrau rhwng yr hyb newydd a Maes Parcio Underhill.

**CM2311-09** **Diweddariad ar Gyrtiau Tenis Langland**

Trafodwyd Cyrtiau Tenis Langland, a chamau gweithredu a gymerwyd, yn yr eitem gynharach ar yr agenda, **CM2311-06**.

**CM2311-10** **Diweddariad ar Barc Sglefrio y Mwmbwls**

Trafodwyd Parc Sglefrio'r Mwmbwls, a chamau gweithredu a gymerwyd, yn yr eitem gynharach ar yr agenda, **CM2311-06**.

**CM2311-11** **Prosiectau eraill**

Ni thrafodwyd unrhyw brosiectau eraill.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.49pm.

Cyfarfod nesaf 6 Rhagfyr 2023.